# Ffocws ar Allyriadau Caffael

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Caffael yw'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae corff cyhoeddus yn eu prynu i'w alluogi i weithredu a chyflawni ei flaenoriaethau a darparu ei wasanaethau**

Yng Nghymru, caffael yw un o'r meysydd corfforaethol allweddol i'w newid a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ein hannog i feddwl am sut a lle i wario arian er lles y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.




## Negeseuon allweddol

### Roedd allyriadau caffael a chadwyni cyflenwi ICC

i gyfrif am y rhan fwyaf o gyfanswm allyriadau ICC.

**72%** 2019/20

**+244%**

**95%** 2020/21

Mae hyn oherwydd COVID-19 a'r cyfarpar a nwyddau traul PPE oedd eu hangen.

### Costau caffael ICC

**£31 miliwn** 2019/20

**£94 miliwn** 2020/21

Nid yw'r ffordd bresennol o gyfrifo allyriadau caffael yn cael ei chynnwys mewn dewisiadau caffael cynaliadwy (sy'n gallu costio mwy weithiau) ble mae gostyngiadau'n cael eu cyflawni drwy wario llai.

**Mae allyriadau caffael yn cynrychioli her datgarboneiddio sylweddol, sy'n gyffredin i nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus**

Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario **dros £7 biliwn** bob blwyddyn ar gaffael

Daeth **62%** o ôl-troed carbon GIG Cymru o **brynu cyflenwadau meddygol** yn 2018/19

## Argymhellion ar gyfer ICC



**Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae caffael cynaliadwy yn caniatáu i ni leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chefnogi busnesau lleol, i sicrhau Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.**

- Ymgysylltwch â'ch cadwyni cyflenwi i ganfod beth y maent yn ei wneud i leihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau a gwasanaethau.

- Nodwch welliannau i leihau allyriadau yn y gadwyn gyflenwi i gefnogi gwaith adrodd ICC ar weithgareddau datgarboneiddio ac allyriadau.


## Sut y gallwch helpu?

- Gall caffael cynaliadwy olygu peidio â phrynu pethau o gwbl, prynu nwyddau sy'n effeithlon o ran ynni ac adnoddau, meddwl mewn modd moesegol a phrynu nwyddau lleol i gefnogi'r economi leol.

- Cyn prynu, edrychwch ar yr opsiynau i rannu, prydlesu neu ailddefnyddio eitemau ac annog cyflenwyr i ddefnyddio llai o ddeunydd pacio.

- Dilynwch yr Hierarchiaeth Caffael Cynaliadwy i ystyried yr effaith amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau prynu.

### Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy




- Ystyriwch gostau'r cylch bywyd llawn – gan gynnwys creu deunyddiau craidd, prynu/ prydlesu, cynnal a chadw, gweithrediad, hyfforddiant, a gwaredu.

- Mae canllaw'r Hwb, Ni yw'r Newid – Mesurau i Leihau ein Gwastraff, yn amlygu rhai o'r ffyrdd ymarferol y gallwch chi a'ch tîm leihau faint o wastraff rydych yn ei gynhyrchu i greu cymdeithas carbon is (gwyrddach).

- Mae canllaw'r Hwb, Ni yw'r Newid – Caffael nad yw'n costio'r ddaear, yn amlygu sut y gallwn feddwl am gynaliadwyedd wrth i ni fynd drwy'r broses gaffael, i helpu i leihau ein hôl troed carbon.

